ARIAN I BAWB

AWARDS FOR ALL

Cymru

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Canllaw i dderbyn cynnig grant amodol

Canllaw CA Arian i Bawb Cymru
Stock code: A4A-WalesCondoffer
Argraffu: Belmont Press
Ffotograffau: Eyeimagery
Cynllun: Graphicsi Ltd
Copïau pellach ar gael gan:
Ffôn: 0845 4 10 20 30
Ffôn testun: 0845 6 02 16 59
E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein cenhadaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd
Rydym wedi nodi tri gwerth sy'n sail i'n gwaith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu, gwneud y defnydd gorau o arian Loteri a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth. Gallwch gael gwybod mwy amdanom ni, ein gwerthoedd a'r rhaglenni ariannu a redwn drwy fynd i'n gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Mai 2011

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

Ynglŷn â'r canllaw hwn	4
Rydym yma i helpu	5
Beth mae angen i chi ei anfon atom	6
Y cynnig amodol	7
Cyfrifon eich mudiad	8
Y ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu	10
Cyfriflenni banc	11
Eich dogfen lywodraethu	13
Canghennau	14
Diddymu cynnig amodol	15

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybod i chi am yr hyn y mae angen i chi ei wneud os byddwn yn cynnig grant amodol i chi o raglen Arian i Bawb Cymru.

Dylech ddarllen y canllaw hwn cyn i chi ymgeisio er mwyn gwirio a allwch fodloni ein gofynion. Cyfeiriwch at y canllaw hwn hefyd os byddwn yn cynnig grant amodol i chi.

Mae derbyn cynnig grant amodol yn gam mawr ymlaen tuag at wireddu syniadau eich prosiect. Mae'n golygu ein bod eisiau ariannu'ch prosiect a'n bod wedi neilltuo peth arian ar ei gyfer. Rydych bron wedi cyrraedd y cam pan allwch ddathlu eich llwyddiant a dechrau gwneud gwahaniaeth i'ch cymuned.

Fodd bynnag, cyn i ni dalu'r grant i chi, mae'n rhaid i chi gadarnhau'r hyn a ddywedoch wrthym yn eich cais. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi a pherson uwch o'ch mudiad lofnodi a dychwelyd ein llythyr o gynnig a derbyn ein hamodau a'n telerau.

Bydd angen hefyd i chi anfon rhai dogfennau atom a fydd yn rhoi cyfle i ni wirio sut mae eich mudiad yn cael ei redeg. Byddwn yn esbonio beth yw'r dogfennau hyn a pham mae eu hangen arnom yn y canllaw hwn.

Mae'n rhaid i chi beidio â chychwyn ar eich prosiect nes ein bod wedi derbyn, gwirio a chymeradwyo'r dogfennau hyn, a'ch bod wedi derbyn llythyr gennym yn cadarnhau'r grant.

Byddwn yn ceisio cwblhau ein gwiriadau ac ysgrifennu atoch o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn popeth rydym wedi gofyn amdano.

Os yw'r hyn y byddwch yn ei anfon atom yn foddhaol, byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn talu'r grant i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Byddwn hefyd yn rhoi dyddiad pan fyddwn yn cyhoeddi'r grant i'r cyhoedd a'r cyfryngau, felly bydd rhaid i chi sicrhau nad yw'r newyddion am y grant yn cael ei rannu neu ei gyhoeddi tan hynny.

Os yw'r hyn y byddwch yn ei anfon yn anfoddhaol, byddwn yn darganfod a allwch ddatrys y broblem. O bryd i'w gilydd, gall fod problem fwy difrifol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn diddymu ein cynnig grant amodol ac yn ysgrifennu atoch gan roi rhesymau pam.

- Defnyddiwch y canllaw hwn i wirio a allwch fodloni ein gofynion.
- Cyfeiriwch at y canllaw hwn os byddwn yn cynnig grant amodol i chi.

Darllenwch y canllaw hwn cyn ymgeisio a chyfeiriwch ato ochr yn ochr â'n cynnig grant.

Rydym yma i helpu

Os byddwch yn derbyn cynnig grant amodol wrth gwrs byddwch yn gyffrous i glywed ein bod eisiau ariannu eich prosiect. Fodd bynnag, peidiwch â gohirio delio â'r gwaith papur!

Cofiwch fod rhaid i chi beidio â chychwyn ar eich prosiect nes ein bod wedi derbyn, gwirio a chymeradwyo'r dogfennau rydych yn eu hanfon atom.

Darllenwch ein llythyr cynnig amodol cyn gynted ag y byddwch yn ei dderbyn gan ei fod yn esbonio'r hyn y bydd angen i chi ei wneud nesaf. Darllenwch y rhestr wirio sydd ynghlwm wrth y llythyr hefyd gan ei bod yn rhestru'r hyn y mae angen i chi ei ddychwelyd.

Os nad ydych yn deall unrhyw beth, cysylltwch â ni mor fuan ag y gallwch.

Weithiau rydym yn darganfod problemau gyda'r hyn rydym yn ei dderbyn yn ôl, neu nid ydym yn derbyn popeth rydym yn gofyn amdano. Os byddwch yn dychwelyd popeth yn gyflym, bydd gennych fwy o amser i ddatrys problemau.

Byddwn yn rhoi 20 niwrnod gwaith i chi ddychwelyd popeth y mae ei angen arnom ac rydym yn cynnwys terfyn amser yn y llythyr cynnig amodol. Mae hyn oherwydd y gellir rhoi'r arian rydym wedi'i neilltuo ar gyfer eich prosiect i brosiectau eraill sy'n bodloni ein gofynion ac yn barod i symud ymlaen.

Os byddwch yn cysylltu â ni cyn y terfyn amser yn ein llythyr cynnig amodol ac rydym yn cytuno bod rheswm da dros ei estyn, mae'n bosib y byddwn yn rhoi 20 niwrnod gwaith ychwanegol i chi i anfon popeth y mae ei angen arnom. Fodd bynnag, ni fyddwn yn estyn ein terfyn amser eto.

* Cysylltwch â ni os oes gennych gwestiynau.
* Peidiwch â'i adael tan y funud olaf cyn dychwelyd popeth atom.

Sut i gysylltu â ni

Bydd ein llythyr cynnig grant amodol yn cynnwys enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y Swyddog Grantiau Cynorthwyol sy'n ymdrin â'ch cais.

Byddant yn gwneud popeth y gallant i helpu, felly cysylltwch â ni os nad ydych yn deall unrhyw beth.

Sicrhewch fod gennych rif cyfeirnod unigryw (URN) eich cais wrth law bob tro y byddwch yn cysylltu â ni. Byddwch yn dod o hyd iddo ar ben y llythyr cynnig amodol.

Cysylltwch â ni os nad ydych yn deall unrhyw beth. Byddwn yn falch o helpu.

Beth mae angen i chi ei anfon atom

Bydd yr hyn y byddwn yn gofyn i chi ei anfon yn dibynnu ar ba fath o fudiad ydych.

Mae ein gofynion ar gyfer pob math o fudiad wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Rydym yn esbonio pob gofyniad ar dudalennau 6 i 14 y canllaw hwn.

Os ydych yn gangen mudiad mwy sydd â rheolaeth weithdrefnol ac ariannol dros eich gwaith, bydd angen i ni weld llythyr hefyd gan y mudiad mwy, yn derbyn cyfrifoldeb cyffredinol dros y grant. Byddwn yn esbonio hyn ar dudalen 14.

* Defnyddiwch y tabl isod i wirio p'un o'n gofynion sy'n berthnasol i'ch mudiad.
* Sicrhewch y gallwch roi popeth y mae ei angen atom at ei gilydd yn gyflym.

	Llythyr cynnig ac amodau a thelerau	Cyfrifon blynyddol neu ragamcaniad 12 mis	Ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu	Cyfriflenni banc neu gopïau ardystiedig	Dogfen lywodraethu
Elusen gofrestredig neu gwmni cyfyngedig drwy warant	✔	✔	✔	✔	
Mudiad gwirfoddol neu gymunedol arall	✔	✔	✔	✔	✔
Cyngor Cymuned neu Dref	✔	✔		✔	
Ysgol	✔			✔	
Corff iechyd	✔			✔	

Mae ein gofynion ar gyfer Cynghorau Eglwys Blwyfol yn debyg i'r rhai ar gyfer elusennau cofrestredig ond os yw'r prosiect yn ymwneud â gwaith ar adeilad, bydd angen i ni weld llythyr hefyd gan Gorff Cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau bod y Cyngor Eglwys Blwyfol yn gyfrifol am gynnal a chadw. Bydd angen i eglwysi neu gapeli eraill anfon eu dogfen lywodraethu oni bai eu bod yn elusen neu gwmni cofrestredig.

Gall ysgolion sy'n defnyddio cyfrif banc awdurdod lleol a chyrff iechyd ddarparu llythyr gan uwch swyddog yn cadarnhau manylion y cyfrif yn lle cyfriflenni banc.

Rydym yn derbyn ceisiadau gan amrywiaeth eang o fudiadau, ac weithiau mae angen i ni ofyn am ddogfennau eraill. Os mai dyma'r achos, byddwn yn eu rhestru yn eich llythyr cynnig amodol.

Gwiriwch p'un o'r gofynion hyn sy'n berthnasol i'ch mudiad.

Y cynnig amodol

Byddwn yn anfon dau gopi o'r llythyr cynnig amodol atoch, ynghyd â rhestr wirio, datganiad a'n amodau a thelerau grant.

Mae'n rhaid i chi ddychwelyd un copi o'r llythyr a'r dogfennau amgaeedig atom. Cadwch y copi arall ar gyfer eich cofnodion.

Darllenwch yr amodau a'r telerau'n ofalus i sicrhau y gallwch gydymffurfio â nhw. Os nad ydych yn deall unrhyw rai ohonynt, cysylltwch â ni a byddwn yn mynd trwyddynt gyda chi.

Yn y datganiad byddwch yn cadarnhau'r canlynol:

- mae'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn eich ffurflen ymgeisio'n wir a heb ei newid ers i chi ymgeisio
- mae'r dogfennau rydych yn eu hanfon atom yn gyfredol ac yn gywir, ac maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan eich mudiad
- mae gan eich mudiad y gallu i dderbyn y grant a gweithredu'r prosiect a ddisgrifiwyd yn eich ffurflen ymgeisio
- os byddwch yn gwneud unrhyw ddatganiadau camarweiniol difrifol neu'n cuddio unrhyw wybodaeth yn fwriadol, bydd yn annilysu eich cais, gan olygu y byddech yn agored i ad-dalu unrhyw arian i ni.

Mae'n rhaid i'r prif gyswllt a'r cyswllt uwch yn eich ffurflen ymgeisio lofnodi'r datganiad. Os yw'r naill na'r llall wedi newid ers i chi ymgeisio, cysylltwch â ni am gyngor. Os ydych yn gwmni ac nad cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni yw eich prif gyswllt, bydd angen trydydd llofnodydd arnom sydd yn un o'r swyddi hyn hefyd.

Mae angen llofnodion gwreiddiol arnom; ni fyddwn yn derbyn llungopïau.

Bydd y llythyr, y datganiad, y rhestr wirio a'r amodau a'r telerau at ei gilydd yn ffurfio eich cytundeb grant gyda ni. Mae angen i chi eu dychwelyd i gyd atom, wedi'u styffylu ynghyd. Peidiwch ag anfon y datganiad yn unig.

Mae'n rhaid i bob mudiad lofnodi a dychwelyd y llythyr cynnig amodol.

* Sicrhewch eich bod yn deall amodau a thelerau'r grant.
* Gwiriwch fod y bobl gywir yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad.
* Anfonwch lofnodion gwreiddiol, nid llungopïau.
* Dychwelwch y llythyr, y datganiad, y rhestr wirio a'r amodau a thelerau, i gyd wedi'u styffylu ynghyd.

Anfonwch y llythyr, y rhestr wirio, y datganiad a'r amodau a thelerau wedi'u llofnodi.

Cyfrifon eich mudiad

Byddwn yn gofyn i chi anfon cyfrifon diweddaraf eich mudiad atom. Mae'n rhaid i'r rhain cael eu dyddio a'u llofnodi gan eich cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd (a'ch archwiliwr neu archwiliwr annibynnol lle bo'n briodol).

Byddwn yn gwirio bod y ffigurau yn eich ffurflen ymgeisio'n cyfateb i'r rhai yn eich cyfrifon.

Os yw eich mudiad wedi bod yn weithredol ers llai na 15 mis, mae'n bosib na fydd modd i chi roi eich cyfrifon i ni, felly mewn achosion o'r fath byddwn yn derbyn rhagamcaniad ariannol 12 mis ar gyfer blwyddyn gwario'r grant. Dylech gynnwys y swm rydym yn gofyn amdano gan Arian i Bawb o dan y rhagamcaniad incwm a'r hyn y caiff ei wario arno o dan 'rhagamcaniad o wariant'.

Mae enghraifft o set syml o gyfrifon ar y dudalen nesaf. Os ydych yn fudiad mawr, bydd eich cyfrifon yn fwy cymhleth.

Mae'n rhaid i elusennau yng Nghymru a Lloegr fodloni gofynion Deddf Elusennau 1993, a ddiweddarwyd gan Ddeddf Elusennau 2006. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am fframwaith adrodd ac atebolrwydd elusennau ar wefan y Comisiwn Elusennau yn www.charitycommission.gov.uk.

Mae'n rhaid i gwmnïau fodloni gofynion y Deddfau Cwmnïau amrywiol. I gael mwy o wybodaeth am reoliadau cyfrifo cwmnïau, ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau yn www.companies-house.gov.uk

Argymhellwn fod mudiadau gwirfoddol nad ydynt yn elusennau cofrestredig yn dilyn arweiniad y Comisiwn Elusennau ar sut i gynhyrchu cyfrifon blynyddol hefyd.

Os yw dogfennau llywodraethu eich mudiad yn nodi gofynion ychwanegol (er enghraifft, bod eich cyfrifon yn cael eu harchwilio'n llawn), dylai eich cyfrifon fodloni'r gofynion hyn.

Ar wahân i ysgolion a chyrff iechyd, mae'n rhaid i bob mudiad anfon eu cyfrifon diweddaraf atom.

- Gwiriwch fod eich cyfrifon yn dangos crynodeb o'ch incwm a'ch gwariant.
- Gwiriwch fod enw eich mudiad ar y cyfrifon.
- Sicrhewch fod y bobl gywir wedi llofnodi eich cyfrifon.
- Os ydych wedi cynhyrchu set newydd o gyfrifon ers i chi anfon eich ffurflen ymgeisio atom, gofynnir i chi eu hamgáu ynghyd â'r cyfrifon sy'n rhoi'r ffigurau a roddoch yn eich ffurflen ymgeisio.

Gwiriwch fod eich cyfrifon wedi cael eu llofnodi a'u dyddio.

Enghraifft o set o gyfrifon syml

Grŵp XYZ

Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2009

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig* £	2008 £
Incwm			
Hurio beiciau	627	-	627
Codi arian	1,027	-	1,027
Rhoddion	555	-	555
Llog a dderbyniwyd gan y banc	12		12
Grantiau	-	2,000	2,000
Cyfanswm adnoddau incwm	2,221	2,000	4,221
Gwariant			
Cyhoeddusrwydd	120	-	120
Grantiau (teithiau)	-	1,500	1500
Post a deunyddiau swyddfa	93	-	93
Yswiriant	205	-	205
Treuliau gwirfoddolwyr	580	-	580
Cyfanswm gwariant ar adnoddau	998	1500	2,498
Incwm net ar gyfer y flwyddyn	**1,223**	**500**	**1,723**
Cyfanswm arian ar 1 Ebrill 2008	550	-	550
Cyfanswm arian ar 31 Mawrth 2009	**1,773**	**500**	**2,273**

Mantolen ar 31 Mawrth 2009

Asedau sefydlog	**0**
Asedau cyfredol	
Banc ac arian	2,273
Atebolrwydd cyfredol	
Credydwyr: (symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn)	0
Asedau net	**2,273**
Arian	
Arian anghyfyngedig	1,773
Arian cyfyngedig	500
Cyfanswm arian	**2,273**

*Gall arian cyfyngedig gael ei ddefnyddio at ddiben penodol yn unig

Llofnod: (Trysorydd)

Dyddiad: 30 Ebrill 2009

Bydd rhagamcaniad ariannol yn edrych yn debyg i'r enghraifft hon ond mae'n rhaid i'ch dyddiad diwedd blwyddyn fod 12 mis o ddyddiad dechrau eich prosiect, a dylech ddefnyddio 'rhagamcaniad incwm' a 'rhagamcaniad gwariant' yn lle 'incwm' a 'gwariant'. Mae angen hefyd i'ch rhagamcaniad adlewyrchu eich rhagamcaniad o'ch sefyllfa ariannol ar ddyddiad dechrau eich prosiect, felly bydd rhaid i chi gynnwys hyn os oes gennych beth incwm eisoes.

Y ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu

Bydd angen i'ch banc neu gymdeithas adeiladu gadarnhau'r canlynol:

- mae gan eich mudiad gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu seiliedig yn y DU yn enw eich mudiad
- Mae'n ofynnol i o leiaf dau berson lofnodi pob siec neu awdurdodi pob didyniad
- Os yw unrhyw lofnodyddion yn perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad, ni allant awdurdodi taliadau gyda'i gilydd.

Byddwn yn anfon ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu atoch. Bydd angen i chi lenwi Rhannau A, B ac C y ffurflen eich hun ac yna mynd â hi i'ch banc neu gymdeithas adeiladu a gofyn iddynt gwblhau Rhan Ch.

Bydd rhai banciau a chymdeithasau adeiladu'n cwblhau Rhan Ch wrth i chi aros, ond mae'n bosib y bydd rhai eraill yn mynnu eich bod yn gadael y ffurflen gyda nhw, felly sicrhewch eich bod yn delio â hyn mor fuan ag y gallwch.

Mae gan y ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu ddigon o le i dri llofnod awdurdodedig. Os oes gan eich cyfrif fwy o lofnodion na hyn, copïwch y ffurflen, llenwch yr holl wybodaeth am y cyfrif yn eich copi, ychwanegwch fanylion y llofnodyddion eraill a gofynnwch iddynt ei llofnodi. Bydd angen i'ch banc neu gymdeithas adeiladu stampio a llofnodi'r copi hwn o'r ffurflen hefyd.

Mae'n bosib y bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu'n codi tâl bach am gadarnhau manylion eich cyfrif na allwch ei adennill gennym ni.

- Gwiriwch eich bod wedi rhoi dyddiad agor y cyfrif, faint o bobl sy'n gorfod llofnodi pob siec a faint o lofnodyddion siec sydd at ei gilydd ar gyfer y cyfrif.
- Gwiriwch fod cyfanswm nifer y llofnodyddion rydych wedi'i roi'n cyfateb i nifer y bobl sy'n llofnodi'r ffurflen.
- Sicrhewch eich bod yn ticio'r blwch Ydw/Nac ydw i gadarnhau a yw unrhyw un o'r llofnodyddion yn perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad.
- Gwiriwch fod pob llofnodydd awdurdodedig wedi llofnodi'r ffurflen, rhoi eu dyddiad geni a'u cyfeiriad cartref, a'ch bod yn anfon y gwreiddiol atom, nid llungopi.
- Peidiwch â defnyddio hylif cywiro ar y ffurflen gan na fyddwn yn ei derbyn. Os bydd angen i chi gywiro camgymeriad, gofynnwch i'ch swyddog banc neu gymdeithas adeiladu roi stamp a llythrennau cyntaf ei enw arni.

Cwblhewch y ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu'n ofalus.

Cyfriflenni banc

Mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn unig sy'n gorfod anfon ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu atom.

Os ydych am ddefnyddio'r un cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y gwnaethoch ei ddefnyddio gyda grant blaenorol, ac rydych wedi darparu cyfriflen banc ar gyfer y cyfrif hwn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, nid oes angen i chi anfon ffurflen manylion banc neu gyfriflen banc atom.

Rhowch Rif Cyfeirnod Unigryw y grant blaenorol ynghyd â llythyr sy'n cadarnhau na chafwyd unrhyw newidiadau i fanylion y cyfrif neu sut mae'r cyfrif yn gweithredu (er enghraifft, nifer y llofnodyddion y mae eu hangen ar gyfer pob didyniad).

Rydym yn gofyn am gyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu er mwyn i ni wirio sut mae eich mudiad yn rheoli'i faterion ariannol.

Mudiadau gwirfoddol neu gymunedol

Bydd angen i ni weld tair tudalen olynol o gyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu gwreiddiol. Mae'n rhaid i'r dudalen ddiweddaraf y byddwch yn ei hanfon fod yn llai na thri mis oed. Gan ddibynnu ar nifer y trafodion a pha mor aml rydych yn derbyn cyfriflenni, gall tair tudalen olynol gynnwys un, dau, tri neu fwy o fisoedd.

Os ydych yn defnyddio paslyfr cymdeithas adeiladu, bydd angen copïau arnom o dair tudalen olynol o'ch paslyfr sydd wedi cael eu hardystio gyda stamp a llofnod gan eich cymdeithas adeiladu fel 'copïau gwir o'r gwreiddiol'. Mae'n rhaid i'r tudalennau rydych yn eu hanfon ddangos eich trafodion diweddaraf. Os nad oes unrhyw un o'r tudalennau hyn yn dangos enw eich cyfrif, eich côd didoli, rhif eich cyfrif na'r rhif rôl, mae'n rhaid i chi anfon copi ardystiedig atom o dudalen sydd yn eu dangos.

Os yw eich mudiad wedi bod yn gweithredu ers llai na thri mis, bydd angen yr holl gyfriflenni gwreiddiol sydd gennych (neu gopïau ardystiedig o'r holl dudalennau o baslyfr eich cymdeithas adeiladu sy'n cynnwys trafodion). Bydd angen llythyr gwreiddiol arnom hefyd gan eich banc neu gymdeithas adeiladu sy'n dangos manylion eich cyfrif a dyddiad agor y cyfrif. Mae hyn hefyd yn berthnasol i grwpiau newydd sydd wedi bod yn gweithredu ers mwy na thri mis ond sydd wedi derbyn llai na thair cyfriflen.

Cynghorau Cymuned neu Dref, neu ysgolion sydd â'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu eu hunain

Bydd angen un gyfriflen fanc wreiddiol arnom, neu gopi o'r dudalen ddiweddaraf o'ch paslyfr, wedi'i hardystio gan eich banc neu gymdeithas adeiladu fe; 'copi gwir o'r gwreiddiol'. Os nad yw manylion eich cyfrif ar y dudalen hon, bydd angen hefyd i chi anfon copi ardystiedig o dudalen sy'n eu dangos.

Mae'n rhaid i bob mudiad anfon cyfriflenni banc gwreiddiol, ar wahân i ysgolion sy'n defnyddio cyfrif awdurdod lleol a chyrff iechyd, y mae'n rhaid iddynt anfon llythyr manylion banc.

Ysgolion sy'n defnyddio cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu awdurdod lleol

Bydd angen llythyr arnom a lofnodir gan swyddog uwch yn yr awdurdod lleol, wedi'i ysgrifennu ar ei bapur swyddogol sy'n cynnwys manylion y cyfrif y caiff y grant ei dalu iddo ynghyd â chadarnhad y caiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect a ddisgrifir yn eich cais yn unig. Mae'n rhaid i'r llythyr gynnwys llofnod gwreiddiol ynghyd ag enw'r banc neu gymdeithas adeiladu, enw'r cyfrif, y côd didoli a rhif y cyfrif.

Cyrff iechyd

Bydd angen llythyr arnom a lofnodir gan swyddog uwch yn eich mudiad, wedi'i ysgrifennu ar ei bapur swyddogol sy'n cynnwys manylion y cyfrif y caiff y grant ei dalu iddo ynghyd â chadarnhad y caiff y grant ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect a ddisgrifir yn eich cais yn unig. Mae'n rhaid i'r llythyr gynnwys llofnod gwreiddiol ynghyd ag enw'r banc neu gymdeithas adeiladu, enw'r cyfrif, y côd didoli a rhif y cyfrif.

* Mae'n rhaid i chi anfon cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu gwreiddiol, nid llungopïau. Byddwn yn eu dychwelyd atoch cyn gynted ag y byddwn wedi'u gwrio.
* Os yw eich mudiad yn defnyddio cyfrif rhyngrwyd, bydd angen cyfriflenni papur gwreiddiol o hyd, felly bydd angen i chi gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu a gofyn iddynt anfon y rhain atoch, gan na fyddwn yn derbyn fersiynau wedi'u lawrlwytho.
* Os yw eich cyfriflen banc yn dangos trafodion cerdyn derbyn neu dros y we, bydd angen i ni weld copi o'ch gweithdrefnau ariannol i wirio bod rhaid i'r holl drafodion gael eu hawdurdodi gan ddau berson nad ydynt yn perthyn i'w gilydd nac yn byw yn yr un cyfeiriad. Anfonwch y rhain ynghyd â'ch cyfriflen banc.

Anfonwch gyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu gwreiddiol, nid copïau.

Eich dogfen lywodraethu

Mae eich dogfen lywodraethu'n disgrifio'n ysgrifenedig sut mae eich mudiad yn gweithio.

Gall fod nifer o enwau iddi, megis cyfansoddiad, set o reolau neu weithred ymddiriedolaeth. Mae'n esbonio'r hyn y mae eich mudiad wedi'i sefydlu i'w wneud a sut mae'n ei wneud.

Mae angen i ni sicrhau bod eich mudiad wedi'i sefydlu'n briodol ac yn medru rheoli grant. Mae ystyried eich dogfen lywodraethu'n un ffordd i ni wneud hyn.

Mae ysgolion, cyrff iechyd a chynghorau tref neu gymuned yn gyrff statudol tra bod elusennau cofrestredig a chwmnïau'n gyrff wedi'u rheoleiddio, felly nid oes angen i ni weld y dogfennau llywodraethu fel arfer. Nid oes angen fel arfer i ni weld dogfennau llywodraethu Cynghorau Eglwys Blwyfol ychwaith, ond os yw'r prosiect yn ymwneud â gwaith ar adeilad, bydd angen llythyr gennym gan Gorff Cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau bod Cyngor yr Eglwys Blwyfol yn gyfrifol am gynnal a chadw.

Ar gyfer pob mudiad gwirfoddol a chymunedol arall (gan gynnwys eglwysi neu gapeli nad ydynt yn elusen gofrestredig nac yn gwmni), byddwn yn gofyn i chi anfon eich dogfen lywodraethu atom os byddwn yn cynnig grant amodol atoch, er mwyn i ni wirio a allwn ariannu eich mudiad neu beidio. Os gwelwn na allwn ariannu'ch mudiad, bydd rhaid i ni ddiddymu ein cynnig.

Os oes gan eich mudiad aelodaeth, byddwn yn gwirio ei bod yn agored i bawb ac y gall unrhyw un ymuno, oni bai y gallwch ddarparu rheswm da yn eich cais yn nodi pam nad yw hyn yn wir. Fel arfer byddwn yn ystyried bod cynnig ac eilio'n annerbyniol, a disgwyliwn y bydd gan unrhyw un y gwrthodir aelodaeth iddynt hawl i apelio. Byddwn yn gwirio nad yw eich rheolau aelodaeth yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth gydraddoldeb ac nad yw ffioedd tanysgrifio'n llethol.

Dylai eich dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- Enw, nodau ac amcanion eich mudiad.
- Sut mae'n cyflawni'r amcanion hynny
- Sut mae'r corff llywodraethu wedi'i ethol neu ei benodi.
- Sut gall pobl ymuno â'r grŵp.
- Beth a wneir â'r asedau os bydd y mudiad yn chwalu.
- Dyddiad mabwysiadu'r ddogfen lywodraethu gan y mudiad.

Dim ond mudiadau gwirfoddol a chymunedol nad ydynt yn elusen gofrestredig nac yn gwmni sy'n gorfod anfon eu dogfen lywodraethu.

* Gwiriwch fod eich dogfen lywodraethu'n ddiweddar ac yn adlewyrchu sut rydych yn gweithredu.
* Sicrhewch fod aelod uwch o'ch corff llywodraethu (megis eich cadeirydd, is-gadeirydd neu drysorydd) wedi llofnodi a dyddio eich dogfen lywodraethu
* Gwiriwch nad ydych wedi newid eich dogfen lywodraethu gan ddefnyddio hylif cywiro, gan na fyddwn yn ei derbyn.

Gwiriwch fod eich dogfen lywodraethu wedi'i llofnodi.

Canghennau

Gall canghennau annibynnol mudiadau mwy ymgeisio'n uniongyrchol i ni. Mae'n rhaid iddynt feddu ar eu dogfen lywodraeth eu hunain ynghyd â chaniatâd i reoli arian a staff heb ganiatâd gan gorff arall.

Gall canghennau dibynnol ymgeisio'n uniongyrchol i ni hefyd os oes ganddynt:

- eu dogfen lywodraeth eu hunain (neu wedi mabwysiadu dogfen lywodraethu'r rhiant-fudiad); a'u bod yn
- cynhyrchu eu cyfrifon blynyddol eu hunain (a all gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y rhiant-fudiad); a
- bod ganddynt gyfrif banc (neu gymdeithas adeiladu) a'u bod yn gyfrifol am sut mae'r arian ynddo'n cael ei wario.

Os cynigiwn grant i gangen ddibynnol, gofynnwn i'r rhiant-fudiad dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol drosto. Felly bydd angen i chi gael llythyr cadarnhad gan eich rhiant-fudiad a'i ddychwelyd atom. Mae'n rhaid i'r llythyr gael ei lofnodi a'i ddyddio gan swyddog uwch eich rhiant-fudiad sy'n cynnwys y testun canlynol ar ei bapur swyddogol:

At: Reolwr Rhaglen Arian i Bawb.

Cadarnhaf fod [rhowch enw'r mudiad ymgeisio] yn gangen [rhowch enw'r rhiant-fudiad] a bod gennyf awdurdod i lofnodi'r llythyr hwn ar ei ran.

Mae fy mudiad yn cefnogi'r cais gan y gangen hon a deallaf mai'r rhiant-fudiad fydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol a chyllidol cyffredinol dros y grant.

Cadarnhaf fod yr atebion a roddir yn y ffurflen ymgeisio a gyflwynwyd gan y gangen yn wir ac yn gywir ac y bydd y rhiant-fudiad a'r gangen y cydymffurfio ag amodau a thelerau'r grant Arian i Bawb.

Llofnod **Dyddiad**

Enw **Teitl swydd**

Mae angen i ganghennau dibynnol gael llythyr cadarnhau gan eu rhiant-fudiad.

- Dylech ddarganfod pwy i gysylltu â nhw yn eich rhiant-fudiad cyn gynted â phosib.
- Anfonwch gopi o'ch ffurflen ymgeisio a'r llythyr cynnig amodol, y rhestr wirio ac amodau a thelerau'r grant atynt.
- Sicrhewch fod y llythyr cadarnhau wedi'i ysgrifennu ar bapur swyddogol eich rhiant-fudiad.
- Sicrhewch fod y llythyr dilysu'n cynnwys enw a theitl swydd y swyddog uwch yn eich rhiant-fudiad a bod ei lofnod a'r dyddiad arno.

Darganfyddwch pwy i gysylltu â nhw yn eich rhiant-fudiad cyn gynted â phosib.

Diddymu cynnig amodol

Byddwn yn gwirio popeth rydych yn ei anfon atom ac yn ysgrifennu atoch o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn popeth rydym wedi gofyn amdano.

Weithiau rydym yn nodi problem. Fel arfer mae'n rhywbeth syml megis gwybodaeth sydd ar goll neu ddogfen heb ei llofnodi. Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn cysylltu â chi. Cyhyd â'ch bod yn dychwelyd y dogfennau erbyn y terfyn amser yn ein llythyr cynnig amodol, byddwn yn estyn y terfyn amser hwn gan hyd at 20 niwrnod gwaith ychwanegol. Cyhyd â'ch bod yn datrys y broblem erbyn y terfyn amser newydd, byddwn yn cadarnhau'r grant.

O bryd i'w gilydd rydym yn dod o hyd i broblem fwy difrifol. Mae hyn fel arfer yn digwydd pan nad yw'r dogfennau rydych wedi'u hanfon yn cadarnhau'r hyn a ddywedoch wrthym yn eich cais (er enghraifft os nad yw eich cyfrif banc yn bodloni'n gofynion neu fod gan eich dogfen lywodraethu gymal sy'n cyfyngu ar aelodaeth).

Os byddwn yn darganfod problem fwy difrifol byddwn yn cysylltu â chi ac yn esbonio y bydd rhaid i ni ystyried diddymu ein cynnig grant amodol. Mae'n bosib y byddwn yn cynnig estyn y terfyn amser yn ein llythyr cynnig amodol gan 20 niwrnod gwaith ychwanegol os credwn y gallwch ddatrys y broblem yn ystod y cyfnod hwn.

Fodd bynnag ni fyddwn yn cynnig mwy o amser i chi os:

- yw'n debygol o gymryd mwy na 20 niwrnod gwaith ychwanegol i ddatrys y broblem
- bydd datrys y broblem yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae eich mudiad, neu'r prosiect rydych wedi ymgeisio ar ei gyfer, yn cael ei redeg.

Ni allwn estyn y terfyn amser dro ar ôl tro gan y gellir rhoi'r arian i brosiectau eraill sy'n bodloni ein gofynion ac sy'n barod i fwrw 'mlaen ac. Hefyd, gall estyniad rhy hir fynd â ni y tu hwnt i ddyddiad cychwyn prosiect ac ni allwn ariannu gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd. Felly mae'n rhaid i chi ddatrys y broblem erbyn y terfyn amser newydd. Ni fyddwn yn ei estyn eto.

Mae bob amser yn benderfyniad anodd i ddiddymu cynnig grant amodol gan brosiect roeddem eisiau ei ariannu. Mae hyn ond yn digwydd mewn nifer bach o achosion a gallwch ailymgeisio eto cyn gynted ag y byddwch yn datrys y broblem. Ni fydd y ffaith rydym wedi diddymu cynnig amodol yn cyfrif yn erbyn cais newydd.

Os bydd rhaid i ni ddiddymu ein cynnig amodol, gallwch ailymgeisio cyn gynted ag y byddwch wedi datrys y broblem.

* Chi sy'n penderfynu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau y mae eu hangen er mwyn i ni gadarnhau'r grant.
* Cyfnod amser byr yn unig a ganiateir i ddatrys y broblem, felly os bydd angen mwy o amser arnoch, gall fod yn well ailymgeisio.